

Wrth iddynt wneud cynnydd

Smotiau Rhydd

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Gofynnwch i'r plant osod nifer o smotiau/ marcwyr mewn lle penodol
- Bydd un plentyn (y chwiliwr smotiau) yn symud o gumpas y lle chwarae gan gadw allan o 'swigen' pawb arall. Bydd y lleill (ceidwaid y smotiau) yn symud ar smotyn, o gumpas smotyn neu oddi wrth smotyn ac yn ôl ato, gyda neu heb ddarn o offer. Cyfeiriwch at y Cardiau Gweithgareddau eraill ar Smotiau. Anogwch bob un o'r plant i symud mewn amrywiaeth o ffyrdd
- Pan fydd un o geidwaid y smotiau'n rhoi signal, bydd pob un o'r plant yn stopio. Bydd ceidwaid y smotiau'n symud yn gyflym at smotyn, ond rhaid i'r chwiliwr smotiau aros. Pan fydd pob un o'r ceidwaid ar smotyn, dylai'r chwiliwr symud at y smotyn rhydd
- Pan roddir gorchymyn arall, bydd y plant yn symud oddi ar eu smotyn ac yn symud o amgylch y lle nes eu bod yn clywed gorchymyn i stopio unwaith eto



Adnoddau

- Marcwyr dros dro, bagiau ffa, ac amrywiaeth o offer bach
- Ystod o offer ar gyfer rhoi signalau/gwneud synau

Cwestiynau

- Beth rydych chi'n ei wneud pan fyddwch chi'n stopio?
- Ar beth rydych chi'n edrych pan fyddwch chi'n symud o gumpas y lle?
- Sut symudoch chi o gumpas y lle?
- Sut rydych chi'n eich stopio eich hun rhag taro yn erbyn plant eraill?
- Pam mae'n bwysig peidio â tharo yn erbyn rhywun?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- na ellir llithro ar y marcwyr; bod digon o bellter rhyngddynt a'u bod nhw'n ddigon pell oddi wrth waliau/offer
- bod y plant yn gweithio mewn grwpiau bach, a bod pob grŵp yn gweithio yn ei 'ardd' ei hun
- bod y plant yn osgoi ei gilydd trwy gadw allan o 'swigod' plant eraill
- bod y plant yn cytuno ar signalau ac yn cytuno pwy fydd yn rhoi'r signalau
- bod y plant yn cyfnewid lle'n aml er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael rhoi cynnig ar fod yn chwiliwr smotiau

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Edrych, chwilio
- Rhydd, lle, swigen, smotyn prysur, ymwybyddiaeth ofodol
- Rhedeg, cerdded, cropian, milwyr yn cropian, llwynogod, neidio a glanio, hercian, neidio dros, camau enfawr, camau bach iawn
- Ymlaen, yn ôl, i'r ochr, yn araf, yn gyflym, ar, dros, o gumpas, oddi wrth, tuag at
- I lawr yn isel, yn y canol, i fyny'n uchel

Cyfleoedd i:

- ddechrau a stopio pan roddir gorchymyn
- dechrau datblygu ymwybyddiaeth ofodol

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn dechrau ac yn stopio pan roddir gorchymyn?
- Yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth ofodol?

weithiau

gan amlaf

- Byddwch yn bartner i'r plentyn i'w helpu i ddod o hyd i'r smotyn rhydd
- Cyfyngwch ar nifer y plant sy'n chwarae ar unrhyw adeg
- Sicrhewch bod y plant yn ymarfer dechrau a stopio pan roddir gorchymyn
- Anogwch y plentyn i gerdded, fel y gall fynd o gwmpas gwrthrychau a phlant eraill yn ddiogel
- Sicrhewch bod digon o bellter rhung y smotiau

- Gofynnwch i'r plentyn symud cyn gynted ag y gall at y smotyn rhydd
- Newidiwch y gorchmynion fel bod y plant yn ymateb i wahanol signalau/gorchmynion
- Cyflwynwch rwystrau eraill i'w goresgyn

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol - rhannu lle ac offer
- Datblygu Meddwl ar draws y curriculum: Cynllunio – dewis beth i'w wneud a sut i'w wneud o blith opsiynau a roddir; Myfyrio – adolygu proses a dull